
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# RHWYDWAITH TRAMOR




Ionawr 2024


# SWYDDFEYDD RHYNGWLADOL LLYWODRAETH CYMRU




OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48135
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg


Llundain
Berlin
Düsseldorf
Beijing
Doha
Dubai
Tokyo
Shanghai
Chongqing
Delhi Newydd
Mumbai
Bangalore

# TSIEINA





## Qingyun Ma

**E-bost:** qingyun.ma001@llyw.cymru

Yn gweithio i Brif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Chongqing, mae gan Qingyun 16 mlynedd o brofiad o gefnogi busnesau a sefydliadau Cymru yn rhanbarthau De-orllewin Tsieina (Chongqing, Sichuan, Yunnan, Guizhou) a chanolbarth Tsieina (Hubei, Hunan, Henan).



## Karen Sun

**E-bost:** karen.sun@llyw.cymru

Fel Prif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Shanghai a Dwyrain Tsieina, mae gan Karen 10 mlynedd o brofiad o gefnogi busnesau Cymru i gael mynediad i farchnad Tsieina gyda ffocws arbennig ar weithgynhyrchu uwch, gwyddorau bywyd, manwerthu a bwyd a diod.



## Susan Jiang

**E-bost:** susan.jiang001@llyw.cymru

Yn gweithio fel Prif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Beijing a Gogledd-orllewin Tsieina, mae gan Susan dros 21 mlynedd o brofiad o gefnogi cwmnïau o Gymru i gael mynediad i farchnad Tsieina ac i ddatblygu eu busnesau mewn sectorau fel gwyddorau bywyd, gweithgynhyrchu uwch, addysg a bwyd a diod.

# TSIEINA



## Peggy Wang

**E-bost:** peggy.wang001@llyw.cymru

Ymunodd Peggy â swyddfa Chongqing Llywodraeth Cymru yn 2017 gan gefnogi busnesau Cymru i archwilio De-orllewin a chanolbarth Tsieina a chynorthwyo sefydliadau addysgol Cymru i sefydlu partneriaethau a nodi prosiectau mewnfuddsoddi posibl a phrosiectau allforio/masnach i Gymru.




## Karen Xing

**E-bost:** karen.xing@llyw.cymru

Karen yw Prif Swyddog Materion Cymru Llywodraeth Cymru yn Chongqing, ac mae ganddi dros 10 mlynedd o brofiad yn cefnogi cwmnïau, sefydliadau a sefydliadau o Gymru sy'n gwneud busnes yn Ne-orllewin Tsieina. Mae hefyd yn arwain ar gysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo Cymru'n ddigidol yn Tsieina.

ALLFORIO YN NEWYDD I CHI?
DECHREUWCH EICH TAITH GYDA NI.

# JAPAN





## Richard Koizumi

**E-bost:** richard.koizumi@llyw.cymru

Ymunodd Richard â Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2023 fel Pennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Tokyo ar ôl gweithio yn y rhanbarth ar gyfer Masnach a Buddsoddi'r DU. Mae'r tîm hwn yn defnyddio ei ddealltwriaeth, ei arbenigedd a'i rwydweithiau diwylliannol yn y wlad i gefnogi cwmnïau o Gymru sy'n gwneud busnes yn Japan a darparu mewnfuddsoddiad i Gymru. Mae Japan yn farchnad soffistigedig gyda chyfleoedd ar draws llawer o sectorau gan gynnwys gweithgynhyrchu uwch, ynni, bwyd a diod, gwyddorau bywyd a thechnoleg.




## Yoko Kobori

**E-bost:** yoko.kobori@llyw.cymru

Y gweithiwr cyntaf o Japan ac mae wedi gweithio i Lywodraeth Cymru ers i'r cynrychiolydd cyntaf agor swyddfa swyddogol yn Tokyo/Japan yn 1996 (gan Awdurdod Datblygu Cymru) gyda swyddi ym meysydd: arwain yr holl allforio/masnachu a mewnfuddsoddiad newydd ym meysydd bwyd a diod, cynhyrchion defnyddwyr, creadigrwydd, addysg, gan gynnwys chwaraeon a hamdden.

Arwain gweithgareddau marchnata/brandio/y cyfryngau/celfyddydau a diwylliant, a thwristiaeth ers 2013/Croeso Cymru a chysylltiadau rhyngwladol â llywodraethau Japan o ran y pŵer meddal.

Pwyntiau cyswllt ar gyfer Cymdeithas Dewi Sant, y Cymry byd-eang, a chymdeithasau Cymreig eraill.



# JAPAN



## Goro Okada

**E-bost:** goro.okada@llyw.cymru

Ers 2003, mae Goro wedi bod yn cefnogi cwmnïau o Gymru i allforio i Japan, yn ogystal â denu buddsoddiad o Japan i Gymru. Mae'n ymdrin ag ystod eang o sectorau, ac mae ei ffocws diweddar wedi bod ar sector technoleg Cymru, gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, seiberddiogelwch, seilwaith ac ynni gwyrdd – sectorau sydd o ddiddordeb allweddol i fusnesau Japan.



## Akiko Hashimoto

**E-bost:** akiko.hashimoto@llyw.cymru

Wedi ymuno â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Japan yn 2008, rôl bresennol Akiko yw cefnogi tîm Japan gyda gweithgareddau hyrwyddo Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor a Masnach gyda sectorau penodol megis Technoleg Feddygol, Heneiddio'n Iach, Prydferthwch a Chwaraeon. Mae Expo 2025 yn Osaka yn faes newydd lle mae angen meithrin y berthynas rhwng Cymru a Japan er mwyn i Gymru fanteisio i'r eithaf.

# INDIA



## Fiona Rodrigues

**E-bost:** fiona.rodrigues@llyw.cymru

Wedi ei lleoli ym Mumbai fel Uwch Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru – Gorllewin a Gogledd India, mae Fiona wedi cynorthwyo cwmnïau o India i fuddsoddi, cydweithio a llwyddo yng Nghymru gan helpu cwmnïau o Gymru i lwyddo mewn marchnadoedd byd-eang am dros 13 o flynyddoedd. Mae'n gweithio ar draws sawl sector diwydiant i helpu cwmnïau sector cyhoeddus a phreifat i allforio, masnachu a buddsoddi. Mae cysylltiadau â llywodraethau, ymgynghorwyr masnach a chyrff amrywiol y diwydiant wedi ei helpu i fod yn gatalydd wrth nodi cyfleoedd i Gymru.

YN EDRYCH AR FARCHNADOEDD ALLFORIO NEWYDD?
GALLWN NI EICH HELPU!

# EWROP



## Laura Norris

**E-bost:** laura.norris@llyw.cymru

Mae Laura yn arwain ein tîm masnach a buddsoddi o ddau berson. Mae'r tim hwnnw wedi ei leoli ym Mrwsel ac yn canolbwyntio ar Ewrop. Ymunodd â Llywodraeth Cymru yn 2022 ar ôl dros 15 mlynedd o waith rhyngwladol yn Affrica ac Asia. O swyddfa Brwsel, rydym yn cefnogi busnesau Cymru gyda gwybodaeth am gyfleoedd masnach a hyrwyddo ar draws holl farchnadoedd Ewrop, ar wahân i lefydd lle mae gennym Swyddfeydd penodol Llywodraeth Cymru yn Ffrainc, yr Almaen ac Iwerddon. Rydym yn canolbwyntio yn benodol ar Wlad Belg, yr Iseldiroedd, Sbaen, yr Eidal, y Swistir a'r Gwledydd Nordig ond rydym yn ceisio cefnogi cwmnïau gydag ymholiadau ar draws holl farchnadoedd Ewrop.



## Rhiannon Evans

**E-bost:** rhiannon.evans23@llyw.cymru

Ym mis Gorffennaf 2023 penodwyd Rhiannon yn Uwch Reolwr Masnach a Buddsoddi yn Swyddfa Llywodraeth Cymru, Brwsel, yn dilyn 4 blynedd o brofiad yn ein swyddfa yn Nulyn. O Frwsel, rydym yn cefnogi cwmnïau o Gymru sy'n ceisio cyrchu a thyfu allforion ledled Ewrop, yn ogystal â hyrwyddo buddsoddiad i mewn i Gymru. Mae ein cymorth allforio yn canolbwyntio'n bennaf ar ein sectorau blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Allforio; Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Gwyddorau Bywyd, Bwyd a Diod, Cynhyrchion Defnyddwyr, Technoleg ac Ynni Adnewyddadwy lle rydym yn ceisio cefnogi cwmnïau sydd â chysylltiadau a chyfleoedd hyrwyddo yn y farchnad.

# FFRAINC



## Robin Walker

**E-bost:** robin.walker002@llyw.cymru

Robin sy'n arwain tîm bach Llywodraeth Cymru ym Mharis, gan gefnogi datblygiad cysylltiadau economaidd a diwylliannol. Ochr yn ochr â'r berthynas amlwg â Llydaw a chysylltiadau yn y sectorau awyrofod a seiberddiogelwch, mae cysylltiadau gyda Grenoble ym maes lled-ddargludyddion a chyfleoedd sylweddol ym maes technoleg a bwyd a diod yn datblygu o Gwpan Rygbi'r Byd yn 2023 yn Ffrainc.



## Elizabeth Nixey

**E-bost:** elizabeth.nixey@llyw.cymru

Ymunodd Elizabeth â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Ffrainc fel Rheolwr Cysylltiadau Allanol a Masnach yn 2021, wedi dros 5 mlynedd o brofiad o ddarparu cymorth arbenigol i gwmnïau Prydeinig er mwyn deall a gwerthu'n llwyddiannus i'r farchnad Ffrengig. Nod swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharis yw datblygu cysylltiadau ymhellach ar draws rhanbarthau Ffrainc a nodi cyfleoedd i arddangos Cymru.

# YR ALMAEN



## Ivon van Heugten

**E-bost:** ivon.vanheugten@llyw.cymru

Ers haf 2022, mae Ivon yn bennaeth ar swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn yr Almaen, yn Berlin a Düsseldorf, wedi pedair blynedd yn Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Ffrainc. Mae gennym glwstwr cryf o gysylltiadau busnes ledled yr Almaen, ac rydym mewn sefyllfa dda i gefnogi busnesau Cymru ar eu taith allforio.



## Marc Shanker

**E-bost:** marc.shanker@llyw.cymru

Fel Uwch Reolwr Datblygu Busnes i Lywodraeth Cymru yn ein swyddfa yn Düsseldorf, mae Marc yn dod ag ugain mlynedd o brofiad masnach dwyochrog mewn adeiladu pontydd rhwng y DU a'r Almaen. Gydag economi aeddfed ac amrywiol yr Almaen a datblygiad cyson Cymru ym maes arloesi a'i hysbryd arloesol, mae'n gofalu am bortffolio eang o sectorau diwydiant sy'n cysylltu pobl â syniadau dewr.



## Martha Pawlita

**E-bost:** martha.pawlita@llyw.cymru

Mae Martha wedi bod yn gweithio i Swyddfa'r Almaen Llywodraeth Cymru fel Rheolwr Cysylltiadau Allanol a Masnach ers Gorffennaf 2019. Wedi ei lleoli yn Berlin, mae'n cefnogi datblygu busnes rhwng Cymru a'r Almaen, yn hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, ac yn cefnogi gweithgareddau ar y cyd mewn diwylliant, ymchwil ac arloesi.

# IWERDDON



## Iain Quick

**E-bost:** iain.quick@llyw.cymru

Cafodd Iain ei benodi yn Bennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn yn 2022 ac mae wedi gweithio ym maes datblygu busnes rhyngwladol ers dros 15 mlynedd. Mae tîm Iwerddon yn rhoi ystod o gymorth i gwmnïau o Gymru i'w helpu i gael mynediad at farchnad Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cwrdd â phrynwyr mewn sectorau allweddol, digwyddiadau mynediad i'r farchnad a chefnogi ymweliadau masnach i'r farchnad.



## Rachel Randall

**E-bost:** rachel.randall@llyw.cymru

Yn 2023 penodwyd Rachel yn Rheolwr Cysylltiadau Allanol a Masnach yn Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn. Mae gan Rachel hanes profedig mewn cyflawni rhyngwladol a datblygu busnes. Mae Rachel yn gweithio ar gyflawni ein Cyd-ddatganiad Iwerddon Cymru. Mae ein hagenda ddwyochrog uchelgeisiol yn rhychwantu ymgysylltu gwleidyddol, economaidd a diwylliannol.



## John O'Loughlin

**E-bost:** john.oloughlin@llyw.cymru

Ymunodd John â Llywodraeth Cymru yn 2022 ac mae'n rheolwr datblygu busnes profiadol iawn gyda record gref o ran sicrhau canlyniadau masnach a buddsoddi rhwng Iwerddon a'r DU. Mae gan John rwydwaith busnes sefydledig yn Iwerddon sy'n canolbwyntio ar y sector technoleg.

# YR EMIRAETHAU ARABAIDD UNEDIG



## Sarah Taylor

**E-bost:** sarah.taylor007@llyw.cymru

Wedi ei lleoli yn yr UAE, Sarah yw Pennaeth Llywodraeth Cymru yn rhanbarth y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Cylch gwaith ei thîm yw cefnogi allforwyr o Gymru i ddatblygu eu busnes ar draws amrywiol sectorau. Cyn hynny, roedd yn Gyfarwyddwr DIT, UAE rhwng 2020 a 2022, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr DIT UAE rhwng 2016 a 2020 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Masnach a Buddsoddi y DU yn Doha, Qatar. Cyn gweithio i Lywodraeth Cymru, bu hefyd yn gweithio i'r FCDO am 24 mlynedd, gan wasanaethu yn Hong Kong, Beijing a Doha ddwywaith.




## Phil Taylor

**E-bost:** phil.taylor@llyw.cymru

Phil yw Dirprwy Bennaeth tîm y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica sydd wedi'i leoli yn Dubai. Mae wedi treulio 12+ o flynyddoedd yn byw yn y rhanbarth, yn mwynhau cefnogi allforwyr o Gymru i ddatblygu eu busnes yma ar draws ystod o sectorau. Cyn ymuno â Llywodraeth Cymru, bu mewn swyddi gyda Masnach a Buddsoddi y DU a Masnach a Buddsoddi Queensland yn Asia a'r Môr Tawel, Ewrop a'r Dwyrain Canol. Mae ganddo ystod eang o brofiad ym maes gwerthu, marchnata, rheoli ceisiadau a datblygu busnes yn y sector preifat ar gyfer cwmni electroneg rhyngwladol mawr.

# QATAR






## Aicha Srour

**E-bost:** aicha.srour@llyw.cymru

Aicha yw Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Doha, Qatar, gan ymuno ychydig cyn i Gymru ennill ei lle yng Nghwpan y Byd FIFA yn 2022. Cyn hynny, bu'n gweithio am bedair blynedd yn rhedeg y tîm gweithrediadau yn Llysgenhadaeth Prydain yn Doha. Mae ganddi gefndir cryf mewn datblygu busnes a gwerthu ac wedi gweithio yn Llundain cyn Qatar, gan werthu'n rhyngwladol, ond nid yn unig i ranbarth GCC. Mae'n hybu allforion, nwyddau a gwasanaethau Cymru, ar draws sawl sector trwy gysylltu busnesau â rhanddeiliaid allweddol yn Qatar.



# GOGLEDD AMERICA



## Zowie Hay

**E-bost:** zowie.hay@llyw.cymru

Mae Dr Zowie Hay yn gwasanaethu fel Pennaeth Gogledd America Llywodraeth Cymru. Wedi'i lleoli yn Llysgenhadaeth Prydain yn Washington DC, mae'n goruchwylio tîm sydd â phresenoldeb yn DC, dinas Efrog Newydd, Chicago, Atlanta, Los Angeles a Montreal. Hi yw'r uwch ddiplomydd dros Gymru yng Ngogledd America. Ymunodd Zowie â Llywodraeth Cymru yn 2011 ac mae ganddi brofiad ar draws ystod o adrannau'r llywodraeth.




## Eoghan O'Regan

**E-bost:** eoghan.oregan@llyw.cymru

Mae Eoghan yn Ddirprwy Bennaeth Gogledd America ar ran Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i leoli yn Washington DC. Mae croeso i chi gysylltu ag ef os oes gennych ddiddordeb mewn allforio i'r rhanbarth.

# UDA





## Efe Sokol

**E-bost:** efe.sokol@llyw.cymru

Am y 13 mlynedd diwethaf, mae Efe wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yn Efrog Newydd. Ar hyn o bryd, mae'n arwain cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru yng Ngogledd-ddwyrain yr Unol Daleithiau ac yn parhau i gefnogi allforwyr i ganfod cyfleoedd newydd ar draws pob sector yn y rhanbarth gan gynnwys llywio gwerthu i gynorthwyo sefydliadau sy'n derbyn cyllid fel y Cenhedloedd Unedig.



## Kelly Taylor

**E-bost:** kelly.taylor002@llyw.cymru


Am y 7 mlynedd ddiwethaf, mae Kelly wedi cynorthwyo cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru yn Efrog Newydd ac wedi cefnogi allforwyr i nodi cyfleoedd newydd ar draws pob sector yn y rhanbarth.



## Simon Heydon

**E-bost:** simon.heydon@llyw.cymru

Simon yw cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Chicago. Mae'n gweithio dros 14 talaith yng Nghanolbarth y Gorllewin, ar draws ystod o feysydd, gan gynnwys masnach a buddsoddi.



# UDA



## Erica Stevens

**E-bost:** erica.stevens@llyw.cymru

Mae Erica Stevens yn Bennaeth y De, sy'n cynnwys 11 talaith y De ac mae'n gweithio o swyddfa Atlanta Llywodraeth Cymru. Mae ganddi dros 10 mlynedd o brofiad yn cynorthwyo cwmnïau o Gymru a Phrydain i ddeall a thyfu ar draws diwydiannau ym marchnad yr Unol Daleithiau.



## Ben Griffith

**E-bost:** benjamin.griffith003@llyw.cymru


Mae Ben Griffith yn ymdrin â materion cyngresol, diplomyddiaeth gyhoeddus a chyfathrebu digidol ar gyfer Llywodraeth Cymru yng Ngogledd America. Mae wedi ei leoli yn Llysgenhadaeth Prydain yn Washington, DC. Ymunodd Ben â Llywodraeth Cymru yn 2022 ac mae ganddo brofiad yng Nghyngres yr Unol Daleithiau ac ymgynghori preifat.

## HYB ALLFORIO BUSNES CYMRU

Yr holl wybodaeth allforio sydd ei hangen ar eich busnes.

**https://businesswales.gov.wales/export/cy**

# UDA





## Luis Calette

**E-bost:** luis.calette@llyw.cymru

Luis Calette yw arweinydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin yr Unol Daleithiau. Wedi'i leoli yn Swyddfa Prif Gonswl Prydain yn Los Angeles, mae'n gweithio dros 12 talaith – California, Oregon, Washington, Idaho, Montana, Wyoming, Utah, Nevada, Arizona, New Mexico, Hawaii ac Alaska.

Cyn hynny, bu Luis yn gweithio fel Cyfarwyddwr swyddfa Adran Masnach Ryngwladol y Gogledd-orllewin yn Tijuana, Mecsico a chreodd a gweithredodd bolisi masnach y DU ar gyfer yr Economi Ddigidol, y Diwydiannau Creadigol, prosiectau Morol, Hamdden a Thwristiaeth a Chwaraeon ym Mecsico. Roedd yn arbenigo mewn mynediad i'r farchnad a datblygu busnes, ac mae wedi helpu cannoedd o gwmnïau i lywio trwy gymhlethdodau masnach ryngwladol.



# CANADA



## Emily Scott

**E-bost:** emily.scott@llyw.cymru

Mae Emily Scott yn gweithio fel Pennaeth Canada Llywodraeth Cymru. Wedi'i lleoli yn swyddfa Conswl Prydain ym Montréal, mae'n gyfrifol am gynrychioli Cymru a buddiannau Llywodraeth Cymru ar draws Canada. Ymunodd Emily â Llywodraeth Cymru yn 2010. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys bod yn Ysgrifennydd Dyddiadur i Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, ac Ysgrifennydd Preifat i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates AS.